

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: David Cook

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

A yw hwn yn ymateb ar y cyd ar ran eich sefydliad / grŵp o sefydliadau?
Os felly, rhowch fanylion: Ar ran CGGC

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn: dcook@wcva.cymru / 0300 111 0124

Cyfeiriad: Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd

Cwestiwn	Ymateb
Pam mae angen y Bil	
<p>Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid?</p>	<p>Ar yr achos o blaid newid: Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at lawer o ansicrwydd mewn nifer o feysydd ledled Cymru, gan gynnwys cyflogaeth. Mae CGGC yn credu ei bod hi'n hanfodol ein bod yn 'ailgodi'n gryfach' – gan geisio gwella'r hyn yr oedd gennym ni cyn y pandemig. O'r safbwynt hwn, byddem yn cefnogi nod y Bil o sicrhau bod 'gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i allu gweithio mewn amgylchedd teg, diogel, iach a chynhwysol, eu bod yn cael eu gwobrwyo'n deg, bod eu hawliau'n cael eu parchu...' Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud i gyflawni hyn. Dylai'r dysgu ddod o'r enghreifftiau gorau o waith partneriaeth yn y sector yn ystod y pandemig, yn sicrhau bod cymunedau ac unigolion wedi gallu parhau i gael y gwasanaethau y maen nhw eu hangen, a chymhwyso hyn i'r hyn sy'n cael ei adeiladu wrth i ni geisio cefnu ar COVID-19. Bydd CGGC yn fwy na bodlon darparu enghreifftiau o arferion da sydd wedi digwydd yn ôl y gofyn.</p> <p>Yn wir, mae'r argyfwng diweddar wedi dangos pa mor bwysig yw amrediad o ffactorau i lesiant, nid yn unig y rheini sy'n ymwneud â gwaith teg.</p>

	<p>Byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder o ran pam mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod yn gorff statudol, pan nad yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol sydd eisoes yn bodoli felly ac wedi bod yn cyngori Llywodraeth Cymru ers cryn amser bellach.</p>
<p>Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol</p>	
<p>Cwestiwn 2: Beth yw'ch barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft?</p>	<p>Os bydd y ddeddfwriaeth hon yn dod i rym, cred CGGC y dylai awdurdodau lleol yn bendant ymgynghori ag undebau llafur wrth osod amcanion llesiant a'r camau i'w cymryd i gyflawni'r rhain. Fodd bynnag, dylai unrhyw waith ymgynghorol o'r fath gael ei ehangu y tu hwnt i undebau llafur a dylai'n bendant gynnwys y sector gwirfoddol a dinasyddion. Trwy ymgynghori ag undebau llafur yn unig, mae'n bosibl na fydd y mwyafrif o leisiau'n cael eu clywed.</p>
<p>Cwestiwn 3: Beth yw'ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon?</p>	<p>Hoffem weld ymrwymiad cadarn i gyd-gynhyrchu wedi'i nodi fel rhan o'r egwyddor 'llais a chyfranogiad'. Awgrymwn hefyd y dylid cynnwys egwyddorion sy'n ymwneud â 'chynaliadwyedd gwasanaethau' a'r 'adferiad gwyrdd'. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n gynaliadwy ac nad ydynt yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Byddai hyn hefyd yn gwneud yr egwyddorion yn fwy cydnaws â'r gwaith parhaus ar yr Economi Sylfaenol.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r rhan helaeth o gynnwys yr egwyddorion a nodwyd eisoes ymhlyg o fewn y pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gall y Ddyletswydd hon dynnu oddi ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, neu arwain at ddyblygu'r gwaith hwn. Nid oes gofyniad i adrodd ar y pum ffordd o weithio. Gan ystyried cylch gwaith ehangach, a phwysigrwydd deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae angen mynd i'r afael â'r datgysylltiad hwn.</p>

<p>Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn ar y rhestr o gyrff y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai'r rhestr o gyrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt?</p>	<p>Dylai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ei hun gael ei ychwanegu at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar wahân i hynny, rydym yn hapus i'r cyrff adlewyrchu'r rheini a restrir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol; ond, dylai'r cyrff a restrir yn y Ddeddf honno gael eu hadolygu'n rheolaidd.</p>
<p>Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg</p>	
<p>Cwestiwn 5: Beth yw'ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg?</p>	<p>Hoffem weld yr amcanion y gall Gweinidogion weithio tuag atynt yn y maes hwn wedi'u nodi'n fwy eglur, gyda chyfnodau ysbeidiol i'r Senedd eu hadolygu, yn hytrach na dim ond rhestru meysydd 'y gallent' ddewis mynd i'r afael â nhw o'u dewis eu hunain. Byddai hyn yn gwneud y rhan hon o'r Bil yn fwy tryloyw.</p>
<p>Cwestiwn 6: Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo?</p>	<p>Rhaid rhoi blaenoriaeth i gynnig cyfleoedd gwaith teg i'r rheini sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur fwyaf gan y pandemig, gan gynnwys llawer o bobl BAME, pobl hŷn a phobl ag anableddau. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan y gymuned a'r sector gwirfoddol, gan adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol sydd eisoes yn bodoli. Byddai hyn hefyd yn cynnwys cael gwared ar rwystrau sy'n atal rhai grwpiau rhag gwirfoddoli. Dylai hefyd gefnogi Cronfa Ffyniant Gyffredin sy'n rhoi'r cyfle i gymunedau a'u hasiantaethau cymorth helpu i hybu newid wrth greu swyddi a datblygiadau cymunedol, yn ogystal â chefnogi meysydd addysg, gwirfoddoli a chhydraddoldeb.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fuddsoddi ymhellach mewn mentrau cymdeithasol a'u cefnogi er mwyn helpu i greu swyddi lleol i bobl a sicrhau bod cadwyni cyflenwi lleol yn cael eu creu.</p> <p>Yn olaf, rhaid iddi hefyd sicrhau ein bod yn cynorthwyo'r rheini sydd bellaf o'r farchnad waith i ddychwelyd i fyd gwaith. Gall hyn gynnwys amrediad ehangach o</p>

	dechnegau nag i'r rheini sydd agosaf at ddychwelyd i waith, a gall ddibynnu mwy ar wirfoddoli a mudiadau o'r sector gwirfoddol.
Cwestiwn 7: A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer 'Gwaith Teg yng Nghymru'?	Dylai unrhyw ddiffiniad o waith teg gyfeirio at y Cyflog Byw gwirioneddol a'r 'Oriau Byw' (e.e. rhybudd teg am waith sifft, gwarantu oriau lleiaf, contractau cywir ac ati) a dylai'r rhain gael eu hymwreiddio mewn gofynion contract. Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw ac mae ganddi ddyletswydd gofal i sicrhau bod hyn yn cael ei basio i lawr y gadwyn gyflenwi, boed hynny drwy grantiau uniongyrchol neu drydydd parti, neu gaffael.
Cwestiwn 8: Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg?	Mae'r gylchred gyfredol o ymrwymadau cyllido un flynedd yn golygu bod mudiadau sy'n cael eu cyllido gan grantiau'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau mawr o ran diogelu cyflogaeth aelodau staff. Mae'r diffyg diogelwch hwn yn sylfaenol annheg. Er mwyn cyflwyno gwaith diogel yn effeithiol yn y sector gwirfoddol, ac felly gwneud Cymru'n fwy ffyniannus ac iachus, mae angen cynnal adolygiad sylfaenol o'r cylchredau a chyfyngiadau cyllidebau un flynedd. Rhaid i elusennau gael y cyfle i glustnodi cyllid o fewn eu cyfrifon a chario arian drosodd i'w wario dros wahanol flynyddoedd ariannol. Mae'r safonau cyfrifyddu ar gyfer elusennau yn gofyn am lwybrau archwilio cadarn sy'n eglur a thryloyw ac ar gael i unrhyw gyllidwr edrych arnynt. Byddai'r Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth fel rhan o Gynllun y Trydydd Sector, a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau o fewn Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi cyngor ar hyn.
Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	
Cwestiwn 9: Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol?	Mae'r trothwy caffael cyfredol ychydig o dan £123,000 o'r hyn a fyddai'n eistedd o fewn y Ddyletswydd. Yn dibynnu ar hyd contract - tair blynedd ddywedwn ni - mae hyn yn isel a byddai tendrau y gallai'r sector gwirfoddol wneud cais amdanynt yn dod o fewn y Ddyletswydd. Byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ystyried

	goblygiadau gwerth contract yn erbyn hyd y contract.
Cwestiwn 10: Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol?	<p>Bydd gofyn i gyrff lunio strategaeth gaffael sy'n seiliedig ar ganllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni nodir yn y dogfennau ymgynghori y bydd buddion cymunedol o reidrwydd yn ffurfio rhan o'r gofynion ar gyfer y strategaethau dan sylw. Mae'n hanfodol bod gofyniad ar gyrff i ystyried budd cymunedol a gwerth cymdeithasol o fewn y strategaethau hyn. Mae'n hanfodol bod y sector gwirfoddol, fel partneriaid gwasanaeth tebygol, yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r strategaethau caffael hyn.</p> <p>Dylid cymryd camau i sicrhau bod yr holl weithwyr ar gadwyni cyflenwi'n derbyn y Cyflog Byw.</p> <p>Dylai fod gofynion ar gyrff i ystyried yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a ardystir gan Lywodraeth Cymru, wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau</p>
Cwestiwn 11: Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy-Haen)?	Nid yw'n eglur pam mae hyn dim ond yn gymwys i gyrff cyhoeddus penodol. Nid yw'r rhesymeg yn glir ar hyn.
Cwestiwn 12: A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu?	Nid yw manylion y cod hwn yn eglur. Yn ogystal, mae angen gwybodaeth fwy manwl am hwn.
Cwestiwn 13: Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi?	Dylai gwaith mapio a rheoli contract effeithiol o'r gadwyn gyflenwi fod o gymorth yma, yn ogystal â sefydlu proses fonitro addas ar draws haenau'r gadwyn gyflenwi trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb/rhithiol, cytundebau lefel gwasanaeth (SLAs), dangosyddion

	<p>perfformiad allweddol (KPIs), targedau a dulliau eraill sydd wedi ennill eu plwyf. Mae'n bwysig sicrhau nad yw baich costau uwch yn cael ei phasio i gyflenwyr trydydd sector. Sut bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau na fydd hyn yn digwydd?</p>
<p>Cwestiwn 14: Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol?</p>	<p>Hoffem gael manylion ar sut bydd hyn i gyd, a'r ddeddfwriaeth yn fwy cyffredinol, yn gweithio ochr yn ochr â Chytundeb Caffael Llywodraethu Sefydliad Masnach y Byd, y mae'r DU bellach yn rhan ohono.</p> <p>Byddai gennym ddi-ddordeb hefyd mewn clywed sut bydd y gwaith hwn yn cysylltu â thrafodaethau blaenorol ynghylch Gwaith Teg, Gofal Teg a sut y bydd gofal yn cael ei gomisiynu a'i dalu amdano.</p> <p>Fel yr awgrymir yn y papur, dylid dim ond ystyried ehangu ar ôl adolygu'r adeiladu. Mae'n anodd cynnig barn ar hyn pan nad oes gennym ni'r wybodaeth hon.</p>
<p>Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol</p>	
<p>Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch:</p> <p>a. Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol;</p> <p>b. Y broses enwebu arfaethedig?</p>	<p>Mae CGGC yn croesawu'r cyfle i'r sector gwirfoddol gael ei gynrychioli ar y Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol (SPC). Roedd hyn ar holl yn yr ymgynghoriad blaenorol ar y pwnc hwn yn 2019. Fodd bynnag, mae nifer o broblemau gyda strwythur yr aelodaeth.</p> <p>Nid yw un cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol yn ddigon. Nid oes gan un person na mudiad unrhyw obaith o siarad â sector mor eang ac amrywiol â'r sector gwirfoddol.</p> <p>Fel y dangosir ar Hwb Data'r Trydydd Sector, mae'r sector yng Nghymru'n gyfrifol am 8% o gyflogaeth y wlad – oddeutu 100,000 o gyflogeion. Mae mwy na 48,500 o'r rheini'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn aml, gyda chysylltiadau agos â'r sector cyhoeddus.</p> <p>Dengys y ffigurau hyn na ddylai'r sector cael ei drin fel 'partner iau' gan Lywodraeth Cymru, ond trwy roi tair sedd i'r sectorau preifat a chyhoeddus ar y</p>

Cyngor a dim ond un i'r sector gwirfoddol, dyna'n gwmws beth sy'n digwydd yma. Drwy wneud hyn, mae perygl o golli nid yn unig y mwyafrif o leisiau'r sector, ond hefyd lleisiau'r cymunedau a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Yn ei dro, gall hyn ddim ond bod yn rhwystr sylweddol i nod cynhwysiant y Ddeddf.

Problem arall a allai godi o ran y cydbwysedd o bŵer yw'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Dylai'r ddau gael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal, ond ni all hyn ddigwydd os oes gan awdurdodau lleol mwy o seddau ar y Cyngor ac, yn fwy na hynny, gyda'r pŵer i dorri cyllid cyd-bartner. Yn y pen draw, er bod cael un cynrychiolydd yn well na dim un, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, yr unig gasgliad y gall unrhyw un sy'n edrych ar strwythur y Cyngor ddod iddo yw bod y sector yn cael ei weld fel partneriaid mwy iau na'r lleill arno.

Os mai dim ond un cynrychiolydd o'r sector fydd ar y Cyngor, bydd angen i'r cynrychiolydd hwnnw gael adnoddau a chymorth i gael y budd mwyaf o'r rôl. Mae angen gwybodaeth am beth fydd Cylch Gorchwyl y rôl hon.

Trwy roi traean o'r seddau ar y Cyngor i Undebau Llafur, mae risg y byddwn ni'n colli lleisiau'r mwyafrif o bobl nad ydynt yn aelodau o undebau llafur. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn wyn. Yn ôl ffigurau'r TUC, Dim ond 9% o bobl BAME sy'n aelodau o Undebau Llafur, ac mae llai na thraean o weithwyr yng Nghymru'n gyffredinol yn aelodau o Undebau. Eto, mae hyn yn niweidio'r cynhwysiant y bwriedir i'r Ddeddf ei greu ac mae'n creu rhwystr i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gwaith a brofir gan Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae hyn yn arbennig o anffodus gan ystyried y gwyddys bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bobl o gymunedau BAME.

	<p>Gallai cyfansoddiad yr SPC hefyd arwain o bosibl at sefyllfa lle bydd Undebau Llafur o blaid ffordd o weithredu a allai niweidio'r sector gwirfoddol, ac nid yw'r un cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol yn debygol o allu cyflwyno gwrthwynebiad cadarn. Mae CGGC yn annog undeboli, ond mae'r cydbwysedd o bŵer yn ymddangos yn anghyfartal iawn yma.</p> <p>Mae'n hanfodol fod mecanweithiau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod lleisiau nad ydynt yn yr undeb, a sectorau nad ydynt wedi'u hundeboli yn cael eu clywed.</p> <p>Rydym hefyd yn synnu nad yw'r maes tai yn cael ei gynrychioli ymhlith yr aelodaeth yn ôl pob golwg, gan ystyried portffolio'r Gweinidog cysylltiedig. Hoffem glywed y rhesymau dros y penderfyniad hwn.</p> <p>Yn olaf, mae angen dogfen sy'n amlinellu'r set o sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar aelodau'r Cyngor er eglurder ac er mwyn i'r cyhoedd gael mwy o ddealltwriaeth o rôl y Cyngor.</p>
<p>Cwestiwn 16: Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau?</p>	
<p>Cwestiwn 17: Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol.</p>	<p>Mae chwe lefel o fiwrocratiaeth rhwng lefel leol a'r SPC yn ormod. Bydd hyn bron yn bendant yn arwain at faterion lleol hanfodol na fydd yn gwneud eu ffordd i fyny'r gadwyn i'w clywed gan yr SPC. Un o'r gwersi allweddol sydd wedi'i ddysgu yn sgil yr ymateb i Covid yw bod angen lleihau'r haenau o fiwrocratiaeth yn hytrach nag ychwanegu atynt.</p> <p>Rydym hefyd yn poeni y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) yn gweld y strwythur prysur hwn yn rhwystr tuag at gyflawni eu hamcanion yn hytrach na'n gymorth.</p>
<p>Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd</p>	

<p>Cwestiwn 18: O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?</p>	<p>Nid ydym yn siŵr sut gallai 'cyfraniad ar y cyd' gael ei ddiffinio'n effeithiol. Fodd bynnag, dyma beth fyddai angen digwydd i ganiatáu iddo gael ei ddeddfu ar ei gyfer.</p>
<p>Cwestiwn 19: A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?</p>	<p>Na ddylid, oherwydd cyfansoddiad arfaethedig yr SPC a'r ffaith nad yw'n rhoi digon o lais i'r sector ddweud ei ddweud yn effeithiol ar y materion cyfreithiol hyn a allai fod yn dyngedfennol.</p>
<p>Cwestiwn 20: Beth yw'ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio'n ymarferol?</p>	<p>Ymddengys fod y ddogfennaeth ymgynghori'n gwyro tuag at gyngor, cyfarwyddiadau a chymorth i gyrff nad ydynt yn cydymffurfio â mesurau, yn hytrach na chosbau ariannol. Mae hyn yn llawer gwell na'r cosbau ariannol dan sylw. Gallai gosod dirwyon ar gyrff arwain y cyrff hynny i dorri gwasanaethau i gymunedau er mwyn digolledu'r diffyg yn eu cyfrifon, ac felly cynyddu'r anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd o bosibl yn hytrach na'i leihau.</p> <p>Fodd bynnag, oni ddylai gorfodi caffael a rheoli contractau fod yn fater i'r brif ddeddfwriaeth?</p> <p>Hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut mae hyn i gyd yn clymu i mewn ag adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o Adran 20.</p>
<p>Cydraddoldeb ac effeithiau</p>	
<p>Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried?</p>	<p>Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw pobl nad ydynt yn wyn yn cael eu cynrychioli'n effeithiol ar yr SPC, felly gallai'r diffyg llais hwn gael canlyniadau negyddol arnynt. Yn yr un modd, mae'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda llawer iawn o bobl – pobl hŷn, ffoaduriaid, pobl ifanc, pobl ag anabledau – ond mae'r diffyg</p>

	<p>anghymesur o lais sydd gan y sector ar yr SPC yn golygu y bydd y grwpiau hyn hefyd heb lais digonol, a fydd eto, o bosibl, yn arwain at ganlyniadau negyddol.</p>
<p>Cwestiwn 22: O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham.</p>	
<p>Cwestiwn 23: A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol?</p>	
<p>Cwestiwn 24: Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?</p>	<p>Gweler C25.</p>
<p>Cwestiwn 25: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Hoffem weld y Bil yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith ddewisol. Mae cyfle i'r Bil wneud hyn, ond ni nodir y bydd yn gwneud hyn.</p>
<p>Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.</p>	<p>Yn y pen draw, mae'r Bil hwn yn cywasgu'r cysyniad o 'bartneriaeth gymdeithasol' i 'waith teg'. Mae gwaith teg yn un o gynhwysion allweddol partneriaeth gymdeithasol wirioneddol yn bendant, ond nid hwn yw'r unig un o bell ffordd. Yn benodol, dylai'r Bil gynnwys mwy o ymgysylltu â grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol – partneriaid</p>

allweddol yn eu cymunedau lleol – yn y bartneriaeth hon.

Mae'r cydbwysedd o bŵer rhwng yr aelodau o'r cyngor partneriaeth hefyd yn amhriodol, gyda gormod o bwyslais yn cael ei roi i rai grwpiau, yn enwedig y rheini a ystyrir fel rhai â chysylltiad uniongyrchol â gwaith teg, a'r rheini sy'n cyfrannu at set ehangach o egwyddorion llesiant.

Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan sylweddol mewn hyrwyddo cymdeithas deg ac mae ganddo lawer o egwyddorion ac enghreifftiau o arferion da i'w rhannu – mewn partneriaeth.

Byddem yn hapus i drafod yr holl bwyntiau hyn ac eraill ymhellach gyda swyddogion, Pwyllgorau neu Weinidogion ar gais.